EUSKO JAURLARITZA
GOBIERNO VASCO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CYTUNDEB rhwng LLYWODRAETH GWLAD Y BASG A LLYWODRAETH CYMRU**

---

Yn eu dymuniad i gryfhau cysylltiadau cyfeillgarwch a chydweithredu, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar 12 Gorffennaf 2018 rhwng

CYMUNED YMREOLAETHOL EUSKADI, a gynrychiolwyd gan Mr Iñigo Urkullu Renteria, Lehendakari Llywodraeth Gwlad y Basg, a

LLYWODRAETH CYMRU, a gynrychiolwyd gan Mr Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru.

O HYN YMLAEN cyfeirir atynt fel "y Cyfranogwyr".

Gan ystyried bod yr adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf – sydd wedi'i atodi i'r cytundeb hwn – wedi dangos tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn sgil y berthynas gydweithredol,

**mae'r Cyfranogwyr wedi penderfynu y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018**

yn cael ei estyn am gyfnod o 3 blynedd o ddyddiad llofnodi'r ddogfen hon, ac y bydd

yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 3 blynedd o ddyddiad llofnodi'r ddogfen hon.

Llofnodwyd yng Nghaerdydd 12/07/2021, ar ffurf ddyblyg, yn Gymraeg, Saesneg, Basgeg a Sbaeneg, a rhoddir statws cyfartal i bob testun.

Ar ran Llywodraeth Gwlad y Basg

Ar ran Llywodraeth Cymru

IÑIGO URKULLU RENTERIA

MARK DRAKEFORD